

# Ysgol Llannon

## Cytundeb cartref – ysgol.

### Dychwelyd i'r ysgol (Covid-19)

### Medi 2020



Mae'r cytundeb cartref-ysgol hwn wedi'i ddrafftio i **gyfathrebu'n glir** y disgwyliadau sy'n ymwneud â disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r ysgol wrth ddychwelyd i'r ysgol yn ystod pandemig Covid-19. Mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid yn gwybod beth a ddisgwylir i **ddiogelu iechyd, diogelwch a lles pawb dan sylw ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd dysgu i'n disgyblion.**



Gwelir y tudalennau 'cwestiynau cyffredin ' ar wefan Sir Gaerfyrddin a allai eich cefnogi ymhellach gyda'ch ymholiadau: [www.sirgar.llyw.cymru/addysg](http://www.sirgar.llyw.cymru/addysg)

## Mae'r YSGOL

### Mae'r ysgol yn ymrwmo i:

- **Darparu amgylchedd diogel a chroesawgar**, sydd wedi cael **asesiad risg** mewn ymateb i'r firws covid-19;
- **Creu grwpiau neu ' swigod ' o fewn yr ysgol**, a fydd yn helpu i leihau cysylltiadau a chyfleoedd i gymysgu ag eraill;
- **Dilyn polisi asesu risg Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru:**  
[https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydrefhtml?\\_ga=2.128875596.159463985.1599036130-1026134349.1583856289](https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydrefhtml?_ga=2.128875596.159463985.1599036130-1026134349.1583856289)
- **Lliniaru a lleihau cymaint o risgiau** ag y bo modd yn ein hysgol;
- **Ymbellhau cymdeithasol** - Byddwn yn gwneud ein gorau glas i gadw at, a gorfodi, canllawiau pellhau cymdeithasol, fel y cynghorir ar gyfer ein hysgol;
- **Golchi dwylo**-bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi/diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Bydd golchi dwylo'n gywir yn cael ei fodelu a'i oruchwylio gan staff, mewn modd sy'n briodol i oed y disgyblion. Yn ogystal, bydd gorsafoedd diheintio dwylo pwrpasol yn cael ar gael o gwmpas yr ysgol.
- **Glanhau:** bydd cyfundrefnau glanhau yn drwyadl, gyda glanhau rheolaidd o arwynebau a gyffyrddir yn aml, dolenni drysau, toiledau, ac ati.
- **Dillad/gwisg:** Mae gofyn i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol tymor hyn.
- **Arlwyyo:** bydd angen i bob disgybl ddod â'u cinio pecyn iach, eu byrbrydau a'u diod eu hunain i mewn nes bod cegin yr ysgol ar agor yn llwyr.
- **Presenoldeb:** bydd yn ofynnol i bob disgybl fynychu'r ysgol o 14eg Medi 2020, oni bai bod rhesymau meddygol dilys dros beidio â gwneud hynny. **Ni fydd yr ysgol yn parhau i ddarparu gwaith rheolaidd ar-lein** ym mis Medi. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd yn ôl amgylchiadau lleol.
- **Asesu risg:** Bydd yr ysgol yn gofyn i rieni gynnal asesiad risg iechyd cyn i'r disgyblion ddychwylyd i'r ysgol ym mis Medi. Nid oes angen cwblhau hyn yn ddyddiol, ond bydd angen ei ddiweddarau os bydd iechyd / amgylchiadau eich plentyn neu'ch teulu'n newid. Mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â symptomau neu risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- **Disgyblion symptomatig:** bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr os yw plentyn yn arddangos unrhyw symptomau covid-19. Disgwylir i rieni gasglu plant o'r ysgol ar unwaith. Bydd ystafell ynysu, neu le pwrpasol, ar gael i ddisgyblion symptomatig.
- **Olrhain a diogelu** : Os bydd unrhyw aelod o staff neu ddisgybl yn mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19 yn ystod oriau ysgol, fe fydd yr ysgol yn cysylltu'n syth â **Lles Delta ar 0300 333 2222. DS. Os digwydd hyn yn ystod gwyliau ysgol, neu y tu allan i oriau ysgol, dylai rhieni roi gwybod am hyn ar unwaith drwy ffonio 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at [TTP@deltawellbeing.org.uk](mailto:TTP@deltawellbeing.org.uk) (gwasanaeth 24 awr).**
- **PPE:** Bydd staff yn gwisgo offer amddiffynnol personol (PPE) priodol, yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, e.e. i weinyddu cymorth cyntaf, cymorth wrth fynd i'r toiled, a lle mae pecynnau gofal a chymorth pwrpasol yn mynnu bod hyn yn angenrheidiol.
- **Gorchuddion wyneb:** Bydd yn ofynnol i ddisgyblion ysgolion uwchradd wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant ysgol ac mewn ardaloedd cymunedol dan do mewn ysgolion lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol, oni bai bod ganddynt eithriad meddygol.
- **Cludiant:** Bydd cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i'r holl ddisgyblion cymwys sydd wedi bod trwy'r broses ymgeisio ac sy'n methu â gwneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol.
- Byddwn yn gwneud ein gorau glas i gynnig **cwricwlwm sy'n ddiddorol, eang a chytbwys**, gyda ffocws penodol ar **les disgyblion**. I gael rhagor o fanylion, ewch i Canllawiau dysgu Llywodraeth cymru: [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19?\\_ga=2.101014721.159463985.1599036130-1026134349.1583856289](https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19?_ga=2.101014721.159463985.1599036130-1026134349.1583856289)

## RHIENI/GOFALWYR

**Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr barchu a chadw at y canllawiau a bennir gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a'r ysgol, er mwyn sicrhau bod staff, disgyblion a'u Cymunedau yn aros mor ddiogel â phosibl.**

**Mae'n ofynnol i deuluoedd ystyried asesiad risg unigol bob dydd. Peidiwch ag anfon unrhyw blant i'r ysgol:**

- Deimlo'n sâl ac yn ddi-hwyl;
- Dangos unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu petawn nhw wedi profi'n positif i COVID-19 yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf;
- Byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19, neu sydd wedi profi'n positif i COVID-19, yn ystod y 14 diwrnod diwethaf;

**Dylai rhieni/gofalwyr **gytuno i'r canlynol:****

- Byddaf yn wirio fy mhlentyn am symptomau covid-19 bob dydd, cyn dod i'r ysgol.
- Byddaf yn hysbysu'r ysgol ar unwaith o unrhyw newidiadau i iechyd fy mhlentyn, fel y gellir diweddarau'r asesiad risg.
- Byddaf yn cefnogi staff yr ysgol yn eu hymdrechion i greu amgylchedd diogel yn ystod yr argyfwng hwn drwy ddilyn canllawiau'r ysgol a'r Llywodraeth i leihau unrhyw risg bosibl;
- In y digwyddiad o glo arall, rwy'n cytuno i gefnogi fy mhlentyn gyda'i ddysgu gartref, yn unol â disgwyliadau'r ysgol;
- **Olrhain, a diogelu:** Os yw fy mhlentyn yn dangos symptomau Covid-19 yn yr ysgol, byddaf yn casglu fy mhlentyn o'r ysgol ar unwaith ac yn dilyn y canllawiau ar gyfer olrhain a diogelu (Trace, Track and Protect- TTP);
- Yn yr achos hwn, neu os oes unrhyw un yn fy nhŷ yn dangos symptomau covid-19, byddwn yn hunanynysu, yn unol â chanllawiau TTP;
- Os bydd fy mhlentyn yn mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19 y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau, byddaf yn adrodd am hyn ar unwaith trwy ffonio **0300 333 2222**, neu drwy anfon e-bost at [TTP@deltawellbeing.org.uk](mailto:TTP@deltawellbeing.org.uk) .
- Am wybodaeth ar sut i wneud cais am brawf i chi'ch hun neu rywun yn eich cartref â symptomau gan gynnwys plant dan 5 oed, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.
- Wrth ollwng fy mhlentyn i ffwrdd a'i gasglu, byddaf yn cadw at yr amser a neilltuwyd (os yn berthnasol) a rheolau ymbellhau cymdeithasol;
- Byddaf yn atgoffa fy mhlentyn am ganllawiau ymbellhau cymdeithasol ac annog yr arfer hwn cyn belled ag sy'n bosibl, yn ôl ei oedran a'i allu;
- Bydd fy mhlentyn yn golchi ei ddwylo cyn dod i'r ysgol a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu dillad glân bob dydd;
- Byddaf yn anfon fy mhlentyn i'r ysgol gyda'r eitemau angenrheidiol ar gyfer y diwrnod. Côt, bag Ysgol, cäs pensiliau a phhecyn bwyd.
- **Gorchuddion Wyneb** (disgyblion uwchradd yn unig): Byddaf yn darparu gorchudd wyneb ar gyfer fy mhlentyn - ar ddiwrnod cyntaf yr ysgol, lle bo hynny'n bosibl. Bydd y cyngor yn

darparu gorchudd wyneb y gellir ei aildefnyddio ar gyfer y disgyblion hynny nad oes ganddynt ddarpariaeth addas.

- Ni fyddaf yn mynd i mewn i adeilad yr ysgol heb wahoddiad. Os bydd angen i mi siarad ag athro fy mhlentyn, byddaf yn ffonio, e-bostio neu'n gadael neges gydag aelod o staff;
- Os ystyrir bod ymddygiad fy mhlentyn yn anniogel/ddim yn dilyn y rheolau, byddaf yn ei gasglu cyn gynted â phosibl. Rwy'n cytuno y bydd ef/hi yn gwneud dysgu yn y cartref â chymorth, hyd nes y cytunir y gall ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.

## Disgyblion

### Gwnaf fy ngorau i:

- Ofalu amdanaf fy hun ac eraill;
- Ymgysylltu â'r profiadau dysgu a ddarperir, yn unol â disgwyliadau'r ysgol;
- I ddweud wrth oedolyn os byddaf yn teimlo'n sâl;
- Ddilyn yr holl reolau hylendid a diogelwch yn y dosbarth, o gwmpas yr ysgol ac yn yr awyr agored;
- Gadw'n ddiogel gyda'r disgyblion yn fy ngrŵp neu ' swigen ';
- Dim ond mynd i mewn ac allan o adeilad yr ysgol o'r lleoliad dynodedig a chadw at y systemau/arwyddion ' symud o gwmpas yr ysgol ';
- Fod yn ddiogel-pesychu a thisian i hances, ei ddal-ei daflu-ei ladd, gan ddefnyddio'r bin cywir ar gyfer hancesi (neu beswch/disian i benelin, os nad oes hances ar gael);
- Ddilyn hylendid dwylo da – defnyddio sebon a dŵr am 20 eiliad gan ddefnyddio'r dechneg gywir/defnyddio diheintydd llaw;
- Ymddwyn yn dda bob amser i gynnal diogelwch fy hun ac eraill;
- Deall y gallai cyfleoedd dod i'r ysgol gael eu cyfyngu os nad ydw i'n ymddwyn yn ddiogel yn amgylchedd yr ysgol;
- Roi gwybod i bobl eraill sut dwi'n teimlo a beth sy'n fy ngwneud i'n hapus.
- Wrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau;
- Siarad a symud yn bwylllog o amgylch yr ysgol;
- Fod yn garedig, yn gyfeillgar ac yn barchus tuag eraill.
- Gorchuddion Wyneb - 11 oed a hŷn yn unig: Rwy'n cytuno i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant ysgol a choleg.
- Disgyblion ysgolion uwchradd yn unig: Rwy'n cytuno i wisgo gorchudd wyneb mewn meysydd cymunedol fel coridorau, lle mae asesiadau risg ysgolion yn dangos nad yw pellter cymdeithasol yn bosibl.
- Ddilyn y disgwyliadau hyn hyd eithaf fy ngallu.

**Llofnod y rhiant/gwarcheidwad:** ..... **Dyddiad:** ... ..

**Llofnod y disgybl:** ..... **Dyddiad:** .....

**Llofnod y prifathro:** J M Langbeer **Dyddiad:.** 3ydd Medi 2020

